**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**—**
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus David TC Davies AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

23 Ionawr 2024

Annwyl David

Mae'r Pwyllgor wrthi'n paratoi ei adroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth lafar ar 17 Ionawr gydag Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn ystod y sesiwn honno, wrth drafod streiciau'r meddygon iau a'r cynigion cyflog amrywiol sydd wedi'u gwneud i feddygon ledled y DU, dywedodd y Gweinidog wrthym nad yw Llywodraeth y DU wedi egluro o ble fydd y cynnydd o 6 y cant a gynigiwyd i feddygon iau Lloegr yn dod. Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd, fel y gwyddoch, os bydd y codiad cyflog yn cael ei ariannu o gyllideb ganolog, byddai gan Gymru hawl i gyllid canlyniadol ychwanegol, ond os caiff ei ariannu o gyllideb iechyd bresennol Lloegr, ni fyddai taliad canlyniadol o'r fath ar gael.

Mae hwn yn amlwg yn fater pwysig, ac mae angen cadarnhau'r sefyllfa ar fyrder, a hynny'n bennaf er mwyn i Lywodraeth Cymru allu cynllunio'n effeithiol.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe baech yn ymchwilio i'r mater hwn ac yn rhoi rhywfaint o eglurder inni. Rhaid inni gyflwyno'n hadroddiad ar y gyllideb ddrafft erbyn 5 Chwefror. Gan hynny, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb cyn y dyddiad hwnnw.

Yn gywir

Russell George

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.